



Idiomau - Nodiadau athro

Mae defnyddio idiomau pan rydych chi'n trafod mewn grŵp yn help i gael mwy o farciau.



Mae [Gwasg Carreg Gwalch](#) wedi **cyhoeddi** dau lyfr sy'n llawn o idiomau. Maen nhw'n wych - ac mae llun a stori i **esbonio** pob idiom. Doniol a diddorol dros ben!

Mae cyfle yma i:

- ddysgu idiomau ar gyfer trafod mewn grŵp
- ddarllen dwy stori sy'n help i ddeall dau o'r idiomau
- ddysgu sut i ddefnyddio'r idiomau i drafod mewn grŵp
- ymarfer trafod mewn grŵp

Matching idioms*

siarad trwy'i het	to talk through his/her hat
dros ben llestri	over the top
taro'r hoelen ar ei phen	to hit the nail on its head
holli blew	to split hairs
pwysu a mesur	to weigh things up
cadw'r ddysgl yn wastad	to keep the peace
gwneud môr a mynydd	to make a meal of it
cael pig i mewn	to get one's say/to get a word in
taeru du yn wyn	to argue black and white
rhaffu celwyddau	to lie through your teeth
moeli clustiau	to listen intently
tynnu'n groes	to be annoying
gwylltio'n gacwn	to go ballistic
tynnu blewyn o drwyn	to be deliberately awkward

* This is available as printable cards to cut up and use with groups and as a digital, self-marking resource.

Defnyddio'r idiomau i drafod mewn grŵp*

Idiom	Fi	Ti	Fo/fe	Hi
Siarad trwy'i het	Dw i ddim yn siarad trwy fy het.	Paid siarad trwy dy het.	Mae o'n / e'n siarad trwy'i het eto.	Mae hi'n siarad trwy'i het weithiau.
Cael pig i mewn	Dw i ddim yn gallu cael fy mhig i mewn o gwbl.	Rwyt ti'n cael dy big i mewn rhy aml.	Mae o'n / e'n gallu cael ei big i mewn.	Mae hi'n llwyddio i gael ei phig i mewn bob tro.

Idiom	Sut i ddefnyddio'r idiomau
dros ben llestri	Rwyt ti'n mynd dros ben llestri rwan.
taro'r hoelen ar ei phen	Mae o / e wedi taro'r hoelen ar ei phen.
holhti blew	Paid â holhti blew.
pwysu a mesur	Rhaid i ni bwysu a mesur.
cadw'r ddysgl yn wastad	Mae'n bwysig cadw'r ddysgl yn wastad.
gwneud môr a mynydd	Paid â gwneud môr a mynydd.
taeru du yn wyn	Rwyt ti'n taeru du yn wyn.
rhaffu celwyddau	Mae Jon yn rhaffu celwyddau yn fy marn i.
tynnu'n groes	Paid a thynnu'n groes o hyd.
gwylltio'n gacwn	Mae Dewi wedi gwylltio'n gacwn.
tynnu blewyn o drwyn	Tynnu blewyn o drwyn rwyt ti rwan.

* Mae'r daflen hon ar gael ar ffurf adnodd y gellir ei lungopïo at ddefnydd y dysgwr.

Ymarfer trafod mewn grwp: 'Amser hamdden' **

Mae penwythnos yn mynd yn rhy gyflym. Ydych chi'n cytuno?

Darllenwch beth mae James yn ei ddweud am y testun ac yna trafodwch mewn grŵp.

"Mae penwythnos yn mynd yn rhy gyflym. Yn wir, mae'r penwythnos yn hedfan. Dw i'n mwynhau bob munud o'r penwythnos. Nos Wener dw i'n mynd gyda'r ffrindiau i'r clwb ieuenctid. Mae digon o weithgareddau yno a rydyn ni'n cael llawer o hwyl.

Bore Sadwrn dw i'n chwarae rygbi dros dîm dan 16 y dref.

Yn y prynhawn rydyn ni'n cefnogi'r tîm cyntaf - gartref ac i ffwrdd. *Dw i'n dwlu ar rygbi.

Dylwn i wneud ychydig o waith ysgol dydd Sul ond mae'n well gen i fynd allan gyda ffrindiau eto - i seiclo neu gerdded o gwmpas y siopau."

*Dw i'n dwlu = Dw i wrth fy modd efo...

Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda James? Pam?

Pam ydych chi'n hoffi'r penwythnos? Dim ysgol? Amser hamdden?

Beth rydych chi'n hoffi gwneud a ddim yn hoffi gwneud ar y penwythnos? Pam?

Meini prawf llwydiant

Cofiwch bod rhaid i chi:

- ddefnyddio'r darn darllen i'ch helpu
- dewis arweinydd, ysgrifennydd a siaradwr
- defnyddio'r cardiau rôl
- gwrando ac ymateb
- mynegi barn
- cytuno ac anghytuno
- cydweithio
- defnyddio'r idiomau

** Mae'r daflen hon ar gael ar ffurf adnodd y gellir ei lungopio at ddefnydd y dysgwr